Faciwîs

www.storiel.cymru

Beth yw faciwî?

Rhywun sydd wedi cael ei anfon ymaith o le peryglus i rywle diogel, yn enwedig yn ystod rhyfel, yw faciwî. Fel arfer, mesur dros dro yw hwn i'w cadw'n ddiogel. Fe ddigwyddodd hyn lawer iawn yn Ewrop yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd sefydlodd y llywodraeth Ymgyrch 'Pied Piper'. Cynllun oedd hwn i symud pobl o'r dinasoedd ac ardaloedd eraill a oedd mewn perygl mawr o gael eu bomio neu ddod yn faes brwydr petai'r gelyn yn ymosod ar Brydain.

Cafodd pobl fregus – plant yn benodol – eu symud o Ewrop hefyd wrth i fyddin yr Almaen feddiannu ardaloedd, a daeth rhai i Brydain oherwydd ystyriwyd ei bod yn lle mwy diogel ar y pryd.

Faciwîs yr Ail Ryfel Byd

Dros gyfnod yr Ail Ryfel Byd fe ddaeth 110,000 o blant yn faciwîs i Gymru.

Oherwydd bod dinasoedd mwyaf Prydain o dan fygythiad difrifol, roedd ysfa i symud y sifiliaid mwyaf bregus sef plant, mamau oedd â phlant o dan 5 oed, merched beichiog a phobl ag anableddau i ardaloedd mwy diogel.

Tra bod rhai wedi cael eu gyrru dramor i Ganada, Seland Newydd neu Awstralia cafodd y mwyafrif eu symud i leoliadau gwledig o fewn Prydain.

Roedd ardaloedd yn cael eu rhannu yn dri chategori yn ôl risg: y trefi 'peryglus' - lle roedd yn rhaid ffoi, yr ardaloedd 'niwtral' - nid oedd yn rhaid ffoi ond nid oedd modd iddynt dderbyn faciwîs ychwaith, a'r ardaloedd 'derbyn' oedd yn cartrefu'r faciwîs.

Roedd rhannau helaeth o Gymru yn cael eu hystyried fel 'ardal derbyn'.
Bu miloedd o Gymry yn cefnogi'r ymdrech a dangos caredigrwydd drwy roi croeso i'r faciwîs i'w cartrefi yn wirfoddol.

Faciwîs yng Ngwynedd yn ystod yr Ail Rhyfel Byd

Faciwîs

Isidore Wartski

Ganwyd Isidore Wartski yn 1879.
Roedd ei deulu wedi ffoi o Rwsia yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cyfnod o erledigaeth yr Iddewon.
Roedd ei dad, Morris Wartski, wedi ymgartrefu ym Mangor ac yn 1865 sefydlodd fusnes gemwaith a siop ddillad ar y Stryd Fawr.
Roedd Isidore hefyd yn ddyn busnes llwyddiannus a datblygodd fusnes dillad ei dad ymhellach, yn ogystal â gweithio ar ddatblygu 'Gwesty'r Castell' yn y dref.
Roedd Isidore yn ffigwr poblogaidd ym Mangor ac yn noddwr chwaraeon ac elusennau lleol.
Ar ôl 15 mlynedd fel aelod o Gyngor y Dref, cafodd ei enwebu fel Maer rhwng 1939 a 1941 - y Maer Iddewig cyntaf yng Nghymru.

Isidore Wartski

Faciwîs o'r 'Liverpool Institute'

Fel Maer yn ystod cyfnod y Rhyfel, Isidore Wartski oedd yn gyfrifol am gynorthwyo'r trefniadau ar gyfer y faciwîs oedd yn cael eu cartrefu ym Mangor.

Ym mis Medi, 1939 symudwyd hogiau ifanc o'r *Liverpool Institute* i'r dref, ac roedd hynny yn golygu sicrhau llety i bob disgybl ac i'r athrawon hefyd.

Roedd pob un o'r tai ym Mangor yn cael ei arolygu er mwyn gweld faint o ystafelloedd gwely oedd ganddynt, ac felly faint o blant y byddai modd ddarparu ar eu cyfer.

Rhoddwyd hefyd lle i addysgu'r plant, ac fe gawsant rannu ysgol gyda'r disgyblion Cymraeg yng Nghapel Berea ar Lon Caernarfon.

Bu'r disgyblion yn aros ym Mangor am naw mis. Fe dderbyniodd Isidore Wartski dancard fel anrheg o ddiolch am ei waith yn ystod y cyfnod hwnnw.

Tancard Isidore Wartski

Faciwîs

Rhyfel Cartref Sbaen

Roedd Rhyfel Cartref Sbaen 1936 a 1939yn wrthdrawiad difrifol, gyda bron i 500,000 yn colli eu bywydau.
Roedd hon yn frwydr rhwng y Gweriniaethwyr (sef y democratiaid adain chwith) a'r Cenedlaetholwyr (sef y ffasgwyr adain dde) oedd yn ceisio dymchwel y llywodraeth a'i gwerthoedd Rhyddfrydol.
Cafodd y Cenedlaetholwyr eu harwain gan Francisco Franco, ac roedd y mwyafrif o'i gefnogwyr yn berchnogion tir, aelodau o'r Eglwys Gatholig Rufeinig a'r Fyddin.
Ar y llaw arall, roedd y Gweriniaethwyr yn cynnwys y gweithwyr, yr Undebau Llafur a sosialwyr.
Y Cenedlaetholwyr oedd yn fuddugol ac fe gafodd Sbaen ei rheoli gan unbennaeth Franco hyd at ei farwolaeth yn 1975.

Adeiladau'n llosgi yn Guernica, Sbaen yn ystod y Rhyfel Cartref

Ymateb Ewrop a Chymru

Roedd y Rhyfel Cartref yn amlygu'r gwahaniaethau sylfaenol yng ngweledigaeth gwledydd Ewrop.
Roedd gwledydd fel yr Almaen a'r Eidal yn gyrru milwyr a gynau i gynorthwyo'r Cenedlaetholwyr, tra bod yr Undeb Sofietaidd yn rhuthro i gefnogi'r Gweriniaethwyr.
Polisi swyddogol Prydain oedd i beidio ag ymyrryd yn y Rhyfel. Er hynny, penderfynodd 2,000 o Brydeinwyr fynd i gefnogi'r Gweriniaethwyr ar eu liwt eu hunain.

Yng Nghymru, roedd nifer yn uniaethu yn benodol â sefyllfa gwlad y Basg yng Ngogledd Sbaen, gan fod annibyniaeth ac iaith leiafrifol y bobl o dan fygythiad petai'r Cenedlaetholwyr yn ennill grym.
Fe aeth 174 o Gymry i ymladd yn erbyn Franco. Roedd y mwyafrif o'r Cymry a aeth i Sbaen yn lowyr o faes glo y De. Ar y pryd roedd yr Undebau Llafur yn cynnal streiciau yn erbyn perchnogion y maes glo, ac roedd brwydr y sosialwyr yn erbyn y Cenedlaetholwyr yn Sbaen yn atyniad deniadol.
Yng Ngogledd Cymru, roedd yr ymdrech i roi cymorth yn un dyngarol yn hytrach na milwrol.

Faciwîs

John Williams Hughes

Ganwyd John Hughes 20 Mai 1906 ac fe'i magwyd yn Marianglas, Ynys Môn.
Roedd ei rieni yn Galfiniaid ac o gefndir Anghydffurfiaeth a Rhyddfrydiaeth, rhywbeth oedd yn gyffredin yng Ngogledd Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.
Roedd yn newyddiadurwr a bu'n ysgrifennu i bapurau fel *North Wales Observer, Y Goleuad, Tir Newydd, New Chronicle, Peace News* a'r *Western Mail*.
Er nad oedd â chefndir meddygol, fel gwirfoddolwr gydag *Uned Ambiwlans Cymru* yr aeth i Sbaen er mwyn rhoi cymorth cyntaf i sifiliaid wedi'u hanafu yn y Rhyfel Cartref.
Roedd yn gyd-ysgrifennydd Pwyllgor Cymorth Meddygol Sbaen yng Ngogledd Cymru ac fe gasglodd ddigon o arian i brynu dau gerbyd, eu llenwi â phecynnau cymorth cyntaf a'u gyrru i Sbaen.

Faciwîs y Rhyfel Cartref

Yn Nhachwedd 1936, lladdwyd 40 o ddisgyblion pan ollyngwyd bom ar eu hysgol. Yn 1937 targedwyd Guernica gan lu o gyrchoedd awyr, gan olygu bod rhaid i filoedd o blant ffoi fel faciwîs.
Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r drychineb, casglodd John Hughes luniau wedi'u creu gan blant Guernica a'u defnyddio fel propaganda yn erbyn y drefn ffasgaidd yn ogystal a cheisio lledaenu'r neges mewn erthyglau papur newydd a chyfweliadau radio.
Bu'n rhaid i 4,000 ffoi o Sbaen yn 1937, ac fe ddaeth dros 200 o blant i letya yng Nghymru. Oherwydd natur wleidyddol y trafferthion roedd y llywodraeth yn betrusgar o roi cefnogaeth, ac roedd yn rhaid i'r plant Basgeg ddibynnu ar roddion gwirfoddol gan y cyhoedd.
Roedd John Hughes yn rhan o'r ymgyrchu i sicrhau cartref i'r ffoaduriaid yng Ngogledd Cymru, ac fe gafodd nifer ohonynt eu cartrefu mewn hen ysgol i ferched ar Lon Meiriadog yn Hen Golwyn.
Mewn ymdrech elusennol rhoddwyd rhagor o gefnogaeth i'r faciwîs drwy gasglu arian o ddrws i ddrws, a thrwy nawdd gan sefydliadau ac ysgolion lleol.

Llun wedi ei dynnu yn ystod Rhyfel Cartref Sbaen - unigolyn yn derbyn cymorth meddygol

Lluniau plant o'r ymosodiad ar Guernica

Faciwîs

Llyfryddiaeth

- Hywel Davies, *Fleeing Franco: How Wales Gave Shelter to Refugee Children from the Basque Country During the Spanish Civil War* (Cardiff, 2011)
- C. Williams, N. Evans a P. O'Leary (gol.), *A Tolerant Nation?: Exploring Ethnic Diversity in Wales* (Cardiff, 2003)
- Martin Johnes, *Wales Since 1939* (Manchester, 2012